

## **Tŷ CRWN i agor fel rhan o ddathliadau cefn gwlad tref.**

Caiff tŷ crwn Marsh Road yn y Rhyl ei agor yn swyddogol ar 17 Medi.

Bydd seremoni gosod carreg gopa yn cael ei chynnal fel rhan o ddiwyddiad Penwythnos Gwyllt y Rhyl, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Tref y Rhyl, Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych a Chymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych.

Bydd y Penwythnos Gwyllt yn dechrau ym Mhwl Cae Brics ac yn rhedeg ar draws Cŷt y Rhyl, Cae Chwarae Antur y Rhyl, Marsh Tracks, Glan Morfa a harbwr y dref.

Cynhelir amrywiol weithgareddau am ddim ar hyd y llwybr, gan gynnwys beicio, pysgota, crefftiau cefn gwlad, plygu gwrych, gweithdy drymio a theithiau tywys.

Bydd Maer y Rhyl, y Cyngorydd Sarah Roberts yn ymuno ag Ann Jones AC i agor y tŷ crwn – prosiect rhwng Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Chymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych.

Meddai'r Cyngorydd Roberts: "Fel gyda phob prosiect da, mae tŷ crwn hynod y Rhyl yn deillio o agwedd bartneriaeth ac yn dangos beth ellir ei gyflawni pan fydd pobl yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r Penwythnos Gwyllt yn gyfle i arddangos y tŷ crwn, a'r cefn gwlad gwych o'n cwmpas, ac rydym yn gobeithio y bydd pobl yn darganfod lleoedd newydd i ymweld â nhw, a gweithgareddau newydd i'w mwynhau."

Defnyddir y tŷ crwn i annog pobl, yn enwedig pobl ifanc, i fwynhau'r awyr agored.

Meddai Garry Davies, Swyddog Cefn Gwlad (y Gogledd) gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych: "Mae wedi bod yn nod hirdymor gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a'i bartneraid i newid y syniad o Lan Morfa fel safle hen domen i fod yn fan gwyrdd, diogel, glân agored i'w fwynhau. Mae cyflawni Prosiect y Tŷ Crwn a'r llawer o gysylltiadau gyda phobl ifanc yn sicr yn helpu."

Anogwyd pobl ifanc a'u rhieni i gyflwyno syniadau ar gyfer y prosiect tŷ crwn.

**Mwy/...**



-2-

Dyweddodd Glen-Maree Charles, Swyddog Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych: “Mae’r syniadau, y dyluniadau a’r gwaith ar y safle wedi dod o gyfuniad o sesiynau galw heibio cymunedol, ysgolion lleol a phartneriaid allweddol, gan arwain at le arbenig iawn a fydd yn ehangu amrywiaeth y bywyd gwyllt a defnydd y safle gan bawb.”

Mae’r digwyddiad Penwythnos Gwyllt yn rhedeg o 11am i 4pm gyda seremoni’r tŷ crwn am 12.30. Mae’r holl weithgareddau am ddim ar y dydd.

**Diwedd**

**12 Medi 2016**

